# CARTREFI CYNNES

# BYWYDAU LLEWYRCHUS

## Strategaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy ar gyfer RhCT





# 2025-2030

Cyflawni Blaenoriaethau
Strategaeth Tai y Cyngor

**CARTREFI LLEWYRCHUS,
BYWYDAU LLEWYRCHUS**

RHONDDA CYNON TAF

# CYNNWYS

TUD.


| | |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 3 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Ein Gweledigaeth | 4 |
| Cefndir | 5 |
| Cyflawniadau Allweddol | 7 |
| Y Cyd-destun Cenedlaethol | 8 |
| Y Cyd-destun Lleol | 10 |
| Y Strategaeth | 12 |
| • Amcan Strategol 1 | 13 |
| • Amcan Strategol 2 | 14 |
| • Amcan Strategol 3 | 15 |
| • Amcan Strategol 4 | 16 |
| Mesur Llwyddiant | 17 |
| Gwireddu'r Weledigaeth! | 18 |


Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg
You are welcome to communicate with us in Welsh

# RHAGAIR

**Yn Rhondda Cynon Taf, rydyn ni'n cydnabod nad moethusrwydd yw cartref cynnes ac effeithlon o ran ynni – mae'n ofyniad sylfaenol ar gyfer iechyd, lles ac urddas dynol. Ar adeg pan fo prisiau ynni'n parhau i godi a llawer o'n cartrefi'n wynebu heriau isadeiledd hen ffasiwn, rydyn ni wedi ymrwymo yn fwy nag erioed i sicrhau bod modd i bob preswylydd fyw mewn cartrefi cynnes, diogel a fforddiadwy.**




Mae ein Strategaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy newydd yn adeiladu ar sylfaen gref o weithredu cydweithredol, arloesedd ac ymgysylltu cymunedol. Mae'r Cyngor, drwy'i Wasanaeth Gwresogi ac Arbed, ynghyd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, eisoes wedi cyflawni dros 12,500 o fesurau effeithlonrwydd ynni i fwy na 6,000 o gartrefi—yn amrywio o inswleiddio, uwchraddio offer gwresogi i osod paneli solar—gan helpu aelwydydd i leihau costau ynni, gwella safonau byw, a lleihau allyriadau carbon.

Mae'r strategaeth yma'n amlinellu ein cyfeiriad ymlaen drwy ein pedwar amcan strategol allweddol a gweledigaeth glir sy'n mynd y tu hwnt i frics a morter.

Mae'r strategaeth yma'n ymrwymiad i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi tanwydd, cefnogi trigolion mewn amgylchiadau agored i niwed, a chreu dyfodol lle nad oes rhaid i neb ddewis rhwng gwresogi eu cartref a diwallu anghenion hanfodol eraill.

Gyda'n gilydd, drwy bwrpas a rennir a gweithredu parhaus, mae modd i ni sicrhau bod pob cartref yn Rhondda Cynon Taf â mynediad at gartref cynnes, fforddiadwy a chynaliadwy - nawr ac yn y dyfodol.



**Y Cynghorydd Mark Norris**
Aelod o'r Cabinet ar
faterion Ffyniant a Datblygu




# CRYNODEB GWEITHREDOL

**Mae Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn bedwerydd awdurdod lleol mwyaf difreintiedig Cymru, gyda rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn y rhanbarth. Mae'r sefyllfa yma yn peri risg sylweddol o dlodi tanwydd i drigolion.**

Mae math ac adeiladwaith cartrefi yn Rhondda Cynon Taf yn cyfrannu at berfformiad ynni is, gyda 65% o gartrefi â Thystysgrifau Perfformiad Ynni wedi'u graddio fel rhai aneffeithlon. Mae'n annhebygol y bydd aelwydydd incwm isel neu ddifreintiedig yn gallu fforddio gwelliannau cartref ar eu pen eu hunain, gan arwain at amodau gwael ac aneffeithlonrwydd ynni heb ymyrraeth. Mae darparu cartrefi cynnes a helpu aelwydydd i gyflawni cynhesrwydd fforddiadwy yn lliniaru tlodi tanwydd ac yn gwella cyflwr eiddo. Mae gwres o gartrefi yn cyfrannu at 40% o Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr, gan effeithio ar newid yn yr hinsawdd. Drwy gyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni i gartrefi, bydd yn lleihau allyriadau carbon ac yn cefnogi'r agenda sero net.

Mae'r Strategaeth yma'n amlinellu sut y bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid dros y pum mlynedd nesaf i gyflawni ymyriadau sy'n ofynnol i gael gwared ar aelwydydd o dlodi tanwydd ac atal aelwydydd rhag syrthio i mewn iddo.

Mae rhoi'r Strategaeth yma ar waith yn dibynnu ar gydweithio cadarn â phartneriaid, gan ganolbwyntio ar fuddsoddi ym mherfformiad ynni'r stoc tai bresennol a datblygu cartrefi newydd sy'n effeithlon o ran ynni. Bydd y buddsoddiad sylweddol sydd ei angen yn gofyn am arloesedd a chreadigrwydd, gan ddefnyddio asedau presennol a denu buddsoddiad allanol o ystod o ffynonellau, megis Rhwymedigaeth Cwmni Ynni Llywodraeth y DU, Rhaglen Ôl-osod Optimeiddiedig Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Cartrefi Cynnes (Nyth).

I gyflawni hyn, rydyn ni wedi nodi **pedwar amcan strategol...**

1. **CEFNOGI TRIGOLION...** i gael mynediad at gyngor o ansawdd diduedd a rhad ac am ddim ar bob mater sy'n ymwneud ag ynni.
2. **GWELLA EFFEITHLONRWYDD YNNI...** cartrefi ar draws deiliadaethau i wella cynhesrwydd thermol a lliniaru tlodi tanwydd i drigolion.
3. **HWYLUSO'R CYFNOD PONTIO...** i ddatgarboneiddio gwresogi mewn cartrefi yn rhan o agenda Sero Net y Llywodraeth, gan sicrhau nad yw tlodi tanwydd yn effeithio'n andwyol ar aelwydydd.
4. **GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH AG YSTOD EANG O SEFYDLIADAU I...** sicrhau bod ymdrechion i leihau tlodi tanwydd yn gydlynol, yn gyfannol ac yn ymatebol i anghenion amrywiol aelwydydd.



# CYFLWYNIAD

**Mae tlodi tanwydd yn parhau i fod yn her sylweddol yng Nghymru, lle mae llawer o aelwydydd yn ei chael hi'n anodd fforddio gwresogi digonol ar gyfer eu cartrefi.**

Fe'i diffinnir fel y cyflwr lle mae angen i aelwydydd wario mwy na 10% o'u hincwm (gan gynnwys budd-dal tai, cymorth incwm ar gyfer llog morgais, neu fudd-daliadau treth gyngor) i gynnal cyfundrefn wresogi foddhaol.

Mae tlodi tanwydd yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys aelwydydd incwm isel, pobl ag anableddau, unigolion oedrannus, a'r rhai sy'n byw mewn cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n wael neu sy'n aneffeithlon o ran ynni. Amcangyfrifir hefyd fod 98% o gartrefi incwm is yng Nghymru yn debygol o fod mewn tlodi tanwydd, gyda 41% mewn tlodi tanwydd difrifol.

➜ **Tlodi Tanwydd yng Nghymru – National Energy Action (NEA)**
www.nea.org.uk/wp-content/uploads/2024/07/NEAImpactReport2023-2024.pdf

Yng Nghymru, mae tlodi tanwydd yn cael ei ysgogi gan gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys costau ynni cynyddol, incwm annigonol aelwydydd, a chyflwr y stoc tai. Mae'r ffactorau yma'n arbennig o amlwg mewn ardaloedd gwledig ac ynysig, lle mae cartrefi'n tueddu i fod yn hŷn ac yn anoddach eu gwresogi. Nid yn unig y mae canlyniadau tlodi tanwydd yn economaidd, ond hefyd yn gymdeithasol ac yn gysylltiedig ag iechyd, gydag effeithiau ar lesiant corfforol a meddyliol, gan gynnwys risg uwch o afiechydon anadlol a straen sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd ariannol.



# EIN GWELEDIGAETH...

***Yw galluogi trigolion Rhondda Cynon Taf i fyw mewn cartrefi cynnes ac iach sy'n meithrin dyfodol llewyrchus.***

Ein nod yw cyflawni hyn drwy gefnogi aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd neu mewn perygl o hynny, gan wella cysur thermol ac effeithlonrwydd ynni eu cartrefi. Mae Strategaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy Rhondda Cynon Taf yn amlinellu cynllun i'r Cyngor gydweithio â phartneriaid ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i fynd i'r afael ag anghenion trigolion Rhondda Cynon Taf a gwireddu ein gweledigaeth dros y pum mlynedd nesaf.

# CEFNDIR


**Mae Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn gartref i dros 237,000 o drigolion ac mae'n cwmpasu ardal o 424 cilomedr sgwâr, gan ymestyn o Fannau Brycheiniog yn y gogledd i gyrion Caerdydd yn y de.**


Mae'r fwrdeistref yn cynnwys 103,339 o gartrefi, gyda thai perchennog-feddiannaeth yn ddeiliadaeth fwyaf cyffredin sef 68% (70,271 o gartrefi), ac yna rhenti preifat sef 18% (18,601 o gartrefi) a rhenti cymdeithasol sef 14% (14,467 o gartrefi) (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021). Er nad oes data penodol ar dlodi tanwydd ar gael ar gyfer Rhondda Cynon Taf, mae'r cyfuniad o fathau o dai, lefelau amddifadedd, a pherfformiad ynni cartrefi yn dangos risg uchel o dlodi tanwydd mewn llawer o gymunedau.

## Tystysgrifau Perfformiad Ynni

**Mae Tystysgrifau Perfformiad Ynni yn darparu sgôr o A-G ar gyfer cartrefi ac mae targedau'r Llywodraeth yn awgrymu y dylai cartrefi gyrraedd o leiaf lefel C. Mae hefyd yn cael ei dderbyn yn gyffredinol bod cartrefi â sgôr C neu uwch yn peri llai o risg o dlodi tanwydd i'w deiliaid.**

Yn Rhondda Cynon Taf, mae cyfanswm o 74,744 o Dystysgrifau Perfformiad Ynni gweithredol wedi'u cyflwyno (Chwefror 2025), tua 72% o gyfanswm y cartrefi yn yr awdurdod lleol. O'r 72%, dim ond 35% o gartrefi (25,467) sydd â sgôr o C neu uwch, felly mae gan y 65% sy'n weddill (49,277) sgôr o D neu is. Mae hyn yn dangos bod gan y stoc tai yn y Fwrdeistref Sirol sgoriau perfformiad ynni sy'n fwy tebygol o achosi tlodi tanwydd i drigolion oherwydd eu bod yn ddrytach i'w gwresogi.





## Pwmp Gwres o'r Aer

**Mae Strategaeth Gwres 2024 Llywodraeth Cymru yn pwysleisio, er mwyn cyflawni sero net erbyn 2050, y bydd angen gwresogi'r rhan fwyaf o gartrefi yng Nghymru gan bympiau gwres ffynhonnell aer. Serch hynny, nid yw pympiau gwres bob amser yn ateb hyfyw oherwydd ffactorau amrywiol, megis amgylchiadau'r preswylwyr ac addasrwydd yr eiddo ei hun.**

Er enghraifft, efallai y bydd angen tymereddau dan do uwch ar rai unigolion am resymau iechyd neu ddewis personol. Yn ogystal â hyn, mae pympiau gwres yn gweithredu'n fwy effeithlon mewn cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n dda. Yn Rhondda Cynon Taf, mae mwyafrif y cartrefi yn strwythurau waliau cerrig traddodiadol, sy'n ei gwneud hi'n heriol darparu inswleiddio waliau sy'n dechnegol addas heb achosi canlyniadau anfwriadol.

Mae modd gosod pympiau gwres o dan Hawliau Datblygu a Ganiateir yng Nghymru; fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn ymarferol ar gyfer tai teras, sydd angen Ceisiadau Cynllunio llawn. Gall y gofyniad yma, ynghyd â diffyg hyder mewn mesurau ynni newydd, atal mabwysiadu'r technolegau yma. Yn ogystal â hyn, er bod prisiau trydan yn uwch na nwy, gall newid cyflenwad ynni cartref i drydan, yn enwedig mewn cartref heb inswleiddio, wneud y pwmp gwres yn llai effeithlon. Gall yr aneffeithlonrwydd yma arwain at filiau ynni uwch, gan waethygu neu greu risg o dlodi tanwydd. Felly mae'n hanfodol nad yw unrhyw ddulliau datgarboneiddio gwres yn effeithio'n negyddol ar dlodi tanwydd. Mae Cynhesrwydd Fforddiadwy yn angenrheidrwydd ar gyfer iechyd a lles cyffredinol, dyma'r gallu i gynhesu cartref i lefel ddigonol ar gyfer cysur ac iechyd heb arwain at ddyled. Mae aelwyd na all sicrhau cynhesrwydd fforddiadwy yn dlawd o ran tanwydd. Nod ymyriadau cynhesrwydd fforddiadwy yw helpu pobl i gynhesu a phweru eu cartrefi yn effeithlon ac yn effeithiol, fel nad ydyn nhw'n syrthio i dlodi tanwydd ac yn dioddef o iechyd gwael sy'n deillio o amgylchedd cartref oer a llaith.





**Mae'r gallu i gadw cartref yn "gynnes" yn amodol ar nifer o ffactorau megis incwm yr aelwyd, prisiau ynni, effeithlonrwydd ynni, ansawdd a chyflwr y cartref, anghenion ynni'r preswylydd a lefelau cysur y preswylwyr (sy'n amrywio oherwydd iechyd, oedran a ffactorau eraill).**

Yn gyffredinol, cydnabyddir mai'r grwpiau canlynol o bobl sydd mewn mwyaf o berygl o dlodi tanwydd;

- **Cartrefi ag incwm isel**
- **Y rheiny a oedd yn byw mewn cartrefi a gafodd eu hadeiladu cyn 1964**
- **Y rheiny heb fynediad at gyflenwad nwy**
- **Y rheiny sy'n defnyddio mesurydd talu ymlaen llaw**
- **Cartrefi â sgôr perfformiad ynni is (yn enwedig sgôr E ac islaw)**
- **Trigolion oedrannus neu anabl**
- **Teuluoedd ifainc**
- **Pobl sy'n byw gyda phroblemau iechyd hirdymor, yn enwedig cyflyrau cardiofasgwlaidd ac anadlol**
- **Unrhyw un sy'n treulio llawer iawn o'i amser ar yr aelwyd ac angen ei chynhesu am gyfnodau hirach.**

O fewn y diffiniad o dlodi tanwydd mae yna hefyd aelwydydd nad ydyn nhw naill ai'n gwario'r swm gofynnol i fodloni'r diffiniad neu'n rhoi'r gorau i'w defnydd o ynni oherwydd anfforddiadwyedd sy'n arwain at 'dan-wresogi' cartrefi i safon gyfforddus. Mae yna hefyd aelwydydd sy'n tangynhesu oherwydd symiau mawr o ddyled ynni ac mewn achosion gwaethaf hefyd yn hunan-ddatgysylltu ac yn cael eu gadael heb unrhyw gyflenwad ynni o gwbl.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae maint yr her wedi dwysáu, gyda phrisiau ynni yn parhau i godi a'r argyfwng costau byw yn rhoi straen ychwanegol ar gyllidebau aelwydydd. Felly, mae'n amserol bod Strategaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy newydd yn cael ei datblygu sy'n nodi sut, dros y 5 mlynedd nesaf, y bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i leihau tlodi tanwydd a chefnogi trigolion yn Rhondda Cynon Taf i fyw mewn cartrefi cynnes, iach ac effeithlon o ran ynni. Dim ond drwy integreiddio materion cynhesrwydd fforddiadwy ag iechyd a lles y mae modd cyflawni'r canlyniadau dymunol i'n trigolion.

# CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL




**Cafodd y strategaeth flaenorol, 'Cartrefi Cynhesach: Strategaeth Tlodi Tanwydd ar gyfer Rhondda Cynon Taf 2019 – 2023,' ei lansio yn 2019. Ers ei gyflwyno, mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud, fel y nodir yn yr adran 'Cyflawniadau Allweddol'.**

## EIN CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL
### GYDA'N GILYDD, RYDYN NI WEDI...

- Cyflawni dros 12,500 o fesurau gwella effeithlonrwydd ynni i fwy na 6,000 o gartrefi ledled Rhondda Cynon Taf.
- Cefnogi cyfanswm buddsoddiad o tua £36 miliwn mewn cartrefi drwy raglen Arbed Llywodraeth Cymru, buddsoddiad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a buddsoddiadau allanol eraill megis Rhaglenni Ôl-osod Optimeiddiedig, grantiau cyfalaf cynghorau, a rhaglenni ariannu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Darparu arbedion ariannol posibl i'n trigolion gwerth cyfanswm o dros £17 miliwn.
- Cyflawni'r nifer uchaf o atgyfeiriadau a gosodiadau gwirioneddol ar gyfer mesurau ynni o gynllun Nyth Llywodraeth Cymru ledled yr holl awdurdodau lleol, gan ddangos dull partneriaeth cryf o gael mynediad at gyllid allanol i drigolion.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gydlynu cyfarfodydd rhwydwaith rhanbarthol i rannu arfer da a phrofiad tra hefyd yn cynyddu cyfleoedd cydweithio ar gyfer cyflawni cynlluniau cyd-ddeiliadaeth, seiliedig ar ardaloedd, sy'n cynyddu cyfleoedd ariannu i'r eithaf.
- Cyflawni Cynlluniau ECO 3 Flex ac ECO 4 Flex, gan weithio gyda gosodwyr a chymeradwyo dros 150 o gartrefi i gael mynediad at gyllid allanol gan gyflenwyr ynni o dan Rwymedigaeth Cwmni Ynni Llywodraeth y DU.
- Cyflawni dros 170 o grantiau effeithlonrwydd ynni wedi'u targedu, gyda chyfanswm o tua £800,000 o fuddsoddiad ym Mhenrhiwceibr, drwy ddenu cyllid o raglen Arbed Llywodraeth Cymru a Rhaglen Grantiau Cyfalaf y Cyngor.
- Creu a gweithredu grant ffotofoltäig solar cymhellol i annog trigolion Rhondda Cynon Taf i osod technolegau adnewyddadwy a gwella sgôr perfformiad ynni eu cartref. Mae'r grant yma wedi cyflawni dros 280 o fesurau, gan gynnwys systemau ffotofoltäig solar a batris, i gartrefi wrth annog buddsoddiad preifat ychwanegol gan berchnogion tai.
- Cafwyd £10,000 o Gronfa 'Materion Cymunedol' Western Power a chyflawnwyd amrywiaeth o fesurau bach i gartrefi, gan gynnwys atal drafftiau trwy ddrysau newydd, llofft, ac inswleiddio waliau ceudod na fyddai wedi derbyn cymorth fel arall. Roedd y cyllid yma hefyd yn darparu hyfforddiant i staff ar ddatgarboneiddio.

**Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod bod mwy i'w gyflawni bob amser.**



# Y CYD-DESTUN CENEDLAETHOL

## LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG

### Rhwymedigaeth Cwmni Ynni:

**Cynllun effeithlonrwydd ynni'r llywodraeth yw'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni sydd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon.** Mae pedwar fersiwn o'r cynllun wedi bod: ECO1, ECO2, ECO3, ac ar hyn o bryd ECO4.

Mae'r cynllun yn gosod targedau lleihau carbon ar gyflenwyr ynni, gan gynhyrchu cyllid trwy osodwyr marchnad i helpu aelwydydd i wella perfformiad ynni eu cartrefi. Mae'r fersiwn gyfredol o'r cynllun wedi'i rhannu'n ddwy ran, gyda'r targedau cyffredinol wedi'u rhannu'n gyfartal rhyngddyn nhw: 1) Gostwng Costau Gwresogi Cartref (HHCRO) a 2) Cymhwysedd Hyblyg. Caiff HHCRO ei ddarparu gan osodwyr yn y farchnad ac mae'n targedu aelwydydd incwm isel sy'n derbyn budd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd. Mae modd gweinyddu Cymhwysedd Hyblyg fel Cymhwysedd Hyblyg Awdurdod Lleol (LA Flex) neu Gymhwysedd Hyblyg Cyflenwyr (Supplier Flex). Mae'r cymhwysedd ehangach yma'n cynnwys aelwydydd incwm isel, cyflyrau iechyd, neu ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar dlodi tanwydd. Cymhwysedd Hyblyg Awdurdod Lleol yw'r math mwyaf cyffredin o gyflenwi ar gyfer y rhan yma o'r cynllun a chaiff ei reoli gan awdurdodau lleol o dan ganllawiau Ofgem. Dim ond awdurdodau lleol sy'n darparu cymhwysedd hyblygrwydd all ddenu cyllid i'w hardaloedd.

### Diwygio Monitro Perfformiad Ynni

**Mae Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPCs) wedi bod yn hanfodol wrth hyrwyddo ymyriadau effeithlonrwydd ynni.** Maen nhw'n asesu'r gwerthoedd mewn arbedion cost ariannol y gallai aelwydydd eu harbed trwy welliannau effeithlonrwydd ynni ac yn darparu sgôr o A (mwyaf effeithlon) i G (lleiaf effeithlon).

### Isafswm Safonau Effeithlonrwydd Ynni (MESS)

**Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ymgynghori ar wella safonau ynni ar gyfer cartrefi rhent preifat erbyn 2030.** Ar hyn o bryd, o dan y Safonau Effeithlonrwydd Ynni Isafswm (MEES), rhaid i bob cartref a gaiff ei rentu'n breifat yng Nghymru a Lloegr gael sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni o E.

# LLYWODRAETH CYMRU

## Cynllun Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru 2021 – 2035

Mae'r cynllun yma'n gosod targedau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd, ynghyd â deg cam gweithredu tymor byr, i'w cyflawni gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

→ **www.llyw.cymru/trechu-tlodi-tanwydd-2021-i-2035-html**

## Strategaeth Gwres i Gymru 2024 Llywodraeth Cymru: Y llwybr at wres sero net yng Nghymru erbyn 2050 ar draws pob sector

Mae'r Strategaeth yma'n nodi dull Llywodraeth Cymru o ddatgarboneiddio gwresogi gofod a dŵr poeth ar gyfer adeiladau yng Nghymru a gwres diwydiannol mewn galw mawr. Mae'n gosod gweledigaeth ar gyfer gwres glân, fforddiadwy a'r llwybr y bydd angen i Lywodraeth Cymru ei gymryd yn y tymor byr i'r tymor canolig-hir i alluogi'r weledigaeth, gyda'r prif ganlyniad yn gosod pympiau gwres mewn cartrefi yng Nghymru.

→ **www.llyw.cymru/strategaeth-gwres-i-gymru**

## Rhaglen Cartrefi Cynnes

**Y rhaglen yma yw prif fecanwaith cyflawni Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn cartrefi rhent preifat a chartrefi sy'n eiddo i berchenogion.**

Mae'n darparu cyngor a mesurau effeithlonrwydd ynni am ddim i aelwydydd cymwys. Mae newid diweddar i'r rhaglen wedi arwain at gyflwyno grant boeleri 'argyfwng' i rai aelwydydd cymwys drwy fisoedd y gaeaf, ond mae'r pecyn cyffredinol o fesurau wedi'i anelu at wresogi carbon isel megis pympiau gwres.

## Y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai 2006

**Mae gan landlordiaid cymdeithasol a phreifat gyfrifoldeb deddfwriaethol i'w tenantiaid i ddarparu cartref diogel a chynnes sy'n rhydd o beryglon megis oerfel gormodol, gwres gormodol a/neu leithder a llwydni o dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai.**

## Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023

**Mae safon newydd Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023 yn berthnasol i gartrefi rhent cymdeithasol. Cafodd safon newydd ei roi ar waith o 1 Ebrill 2024 ac yn disodli'r safon flaenorol o 2002.**

Yn y safon newydd mae mwy o bwyslais ar berfformiad ynni cartrefi gyda gofyniad o sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni A, o leiaf, gyda safon dros dro o sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni C. Mae hefyd yn nodi bod rhaid lleihau allyriadau carbon o gartrefi i Sgôr Effaith Amgylcheddol (EIR) o 92 ac effaith amgylcheddol cartrefi.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015

**Mae mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn cyfrannu at bob un o 7 nod lles y Ddeddf yma.**

Mae darparu gwasanaethau cynghori a chynlluniau effeithlonrwydd ynni o ansawdd uchel yn gyfle i gyfrannu at adeiladu cymunedau llewyrchus a chydnerth, gwella iechyd a lles trigolion, adfywio cymunedau a gwella cyflwr eiddo wrth leihau allyriadau carbon.

Mae'n gofyn am ddull cyfannol gan ystod o bartneriaid. Nid oes modd cyflawni llwyddiant ar ein pennau ein hunain, felly mae cydweithio rhwng gwasanaethau yn hanfodol i liniaru tlodi tanwydd a gwella lles y boblogaeth bresennol ond hefyd drwy wella cyflwr eiddo a lleihau allyriadau carbon, bydd yn helpu i ddiogelu cartrefi ar gyfer y dyfodol ar gyfer y cenedlaethau nesaf.



# Y CYD-DESTUN LLEOL

## Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

## Gweithio gyda'n Cymunedau 2024 – 2030

**Dyma ddogfen strategol allweddol y Cyngor. Mae pedwar amcan llesiant yn y Cynllun Corfforaethol i helpu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Rhondda Cynon Taf.**

Dyma nhw: `



### POBL A CHYMUNEDAU

Cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau RhCT i fyw bywydau diogel, iach a chyflawn.



### GWAITH A BUSNES

Helpu i gryfhau a thyfu economi RhCT.



### BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD

RhCT gwyrdd a glân sy'n gwella ac yn gwarchod yr amgylchedd a byd natur.



### DIWYLLIANT, TREFTADAETH A'R GYMRAEG

Cydnabod a dathlu gorffennol, presennol a dyfodol RhCT.


Er bod materion tai yn torri ar draws pob un o'r pedair blaenoriaeth strategol yma, mae'n cyfrannu'n arbennig at yr amcan 'pobl a chymunedau' drwy gyflawni'r flaenoriaeth 'bydd gan drigolion fynediad at gartrefi fforddiadwy o ansawdd da ac effeithlon o ran ynni'.

➜ **https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/PerformanceBudgetsandSpending/Councilperformance/TheCouncilsCorporatePlan.aspx**



## Strategaeth Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

# Cartrefi Llewyrchus, Bywydau Llewyrchus 2024 – 2030




**Mae'r strategaeth yma'n nodi sut, dros y 5 mlynedd nesaf, y bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i lunio a darparu tai a gwasanaethau tai sy'n ddiogel, yn fforddiadwy ac o safon.**

Mae pedwar amcan wedi eu sefydlu yn y Strategaeth. Dyma nhw:

1. **GALLUOGI...**
   **marchnad dai weithredol sy'n diwallu anghenion ein cymunedau.**
2. **HYRWYDDO...**
   **cymunedau cynaliadwy a chreu cartrefi sy'n ddiogel, yn gynnes ac yn iach drwy wella cyflwr tai a buddsoddi mewn adfywio cymunedau.**
3. **GALLUOGI...**
   **mynediad i bob math o dai addas a fforddiadwy sy'n diwallu anghenion trigolion.**
4. **CREU...**
   **cymunedau llewyrchus drwy sicrhau bod gan drigolion fynediad i gyngor a chymorth yn ymwneud â materion tai sy'n diwallu eu hanghenion.**

Mae'r Strategaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy yma'n cyfrannu'n benodol at amcanion dau a phedwar.

→**https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/Housing/Housingstrategiesplansandpolicies/HousingStrategiesplansandPolicies.aspx**

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

# Gwneud Rhondda Cynon Taf yn Garbon Niwtral erbyn 2030 (2022-2025)





**Mae hwn yn nodi uchelgais y Cyngor i ddefnyddio adnoddau Rhondda Cynon Taf i gynhyrchu ynni gwyrdd i'w ddefnyddio mewn adeiladau a chartrefi lleol ac i bweru cerbydau trydan.**

Mae'r Strategaeth yma'n cyfrannu at yr amcanion yma drwy ddarparu cyngor ac ymyriadau i drigolion sy'n helpu i leihau'r defnydd o ynni a gwella perfformiad ynni o fewn y sector tai domestig.

→**www.rctcbc.gov.uk/NewidynyrHinsawdd**

# Cynllun Ynni Ardal Leol



**Mae'r cynllun yma'n darparu gweledigaeth ranbarthol ar gyfer y deg awdurdod lleol sy'n rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n amlinellu'r newid i system ynni di-garbon erbyn 2050.**

Mae'r cynllun yn 'ddull systemau cyfan' sy'n ystyried yr atebion mwyaf effeithiol i'r system ynni gan ganolbwyntio'n bennaf ar yr amgylchedd adeiledig, gan gynnwys tai domestig ynghyd ag adeiladau annomestig, masnachol a diwydiannol, trafnidiaeth a rhwydweithiau ynni lleol sydd eu hangen i gefnogi'r defnydd yma. Mae'r Strategaeth yma'n cefnogi cyflawni'r camau gweithredu yma i'r sector tai domestig yn Rhondda Cynon Taf.

→**https://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Campaigns/ClimateChangeRCT/externallinks/CynllunYnniArdalLeol.pdf**

# Y STRATEGAETH

**Mae'r Strategaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy newydd yn amlinellu cynllun y Cyngor i gydweithio â phartneriaid dros y pum mlynedd nesaf i leihau tlodi tanwydd a chefnogi trigolion Rhondda Cynon Taf i fyw mewn cartrefi cynnes, iach ac effeithlon o ran ynni. Drwy integreiddio mentrau cynhesrwydd fforddiadwy ag ymdrechion iechyd a lles, mae modd i ni gyflawni'r canlyniadau dymunol i'n trigolion.**

I gyflawni ein gweledigaeth, mae pedwar amcan wedi eu sefydlu yn y Strategaeth. Dyma nhw:

**1 CEFNOGI TRIGOLION...**
i gael mynediad at gyngor rhad ac am ddim, diduedd ac o ansawdd uchel ar bob mater sy'n ymwneud ag ynni.

**2 GWELLA EFFEITHLONRWYDD YNNI ...**
cartrefi ar draws deiliadaethau i wella cynhesrwydd thermol a lliniaru tlodi tanwydd i drigolion.

**3 HWYLUSO'R NEWID...**
i ddatgarboneiddio gwresogi mewn cartrefi yn rhan o agenda Net Sero y Llywodraeth, gan sicrhau nad yw tlodi tanwydd yn effeithio'n andwyol ar aelwydydd.

**4 GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDAG YSTOD EANG O SEFYDLIADAU...**
i sicrhau bod ymdrechion i leihau tlodi tanwydd yn gydlynol, yn gyfannol ac yn ymatebol i anghenion amrywiol aelwydydd.



AMCAN STRATEGOL 1:

# 1 Cefnogi trigolion i gael mynediad at gyngor rhad ac am ddim, diduedd ac o ansawdd uchel ar bob mater sy'n ymwneud ag ynni.



**Mae deall yr holl ffactorau sy'n effeithio ar aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd neu mewn perygl o wynebu tlodi tanwydd yn hanfodol er mwyn nodi a mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol. Mae'r dull yma'n helpu i 'ddiogelu' aelwydydd ar gyfer y dyfodol, gan eu gwneud yn fwy cydnerth i gynnydd mewn biliau ynni neu newidiadau mewn amgylchiadau personol.**

Mae rhoi cyngor a chyfeirio trigolion at ffynonellau cymorth eraill yn elfennau allweddol o ddull cyfannol o fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae cael mynediad at ystod o wybodaeth yn galluogi aelwydydd i wneud penderfyniadau gwybodus am opsiynau addas i leihau biliau ynni a'r galw drwy wella'r defnydd o ynni mewn cartrefi. Mae cyngor ac eiriolaeth i ddefnyddwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth alluogi trigolion i sicrhau bod y gefnogaeth a gânt yn briodol a'u bod yn derbyn gwasanaeth teg a chyfiawn.

Mae'r ffordd y caiff cyngor a gwybodaeth eu darparu yn hanfodol i helpu pobl i gael mynediad at y gwasanaethau a'r cymorth ariannol sydd ar gael. Caiff ei gydnabod bod modd i derminoleg a chymhlethdodau cynlluniau yn y sector ynni fod yn hynod gymhleth a dryslyd i drigolion sy'n ceisio cymorth gan raglenni a gaiff eu hariannu gan grantiau. Tynnodd adroddiad diweddar gan y Gwasanaeth Cynghori ar Gyfranogiad Tenantiaid (Tenant Pulse on Energy Efficiency and Affordable Warmth, Mai 2024) sylw at y ffaith bod angen cyflwyno terminoleg marchnata a hysbysebu o fewn y sector ynni mewn fformat sy'n berthnasol ac yn ddealladwy i'r cyhoedd yn gyffredinol.

## SUT Y BYDDWN NI'N GWNEUD HYN?

- Parhau i ddarparu cyngor rhad ac am ddim, diduedd ac o ansawdd uchel drwy Wasanaeth Gwresogi ac Arbed y Cyngor, gan gynnwys cyfeirio trigolion at gyngor defnyddwyr ar bob mater sy'n ymwneud ag ynni.
- Parhau i roi cyngor a chyfeirio at gynlluniau ariannu grantiau, gwresogi adnewyddadwy / carbon isel a buddsoddiad preifat arall h.y. Benthyciadau Gwella Cartrefi.
- Parhau i roi cyngor a chyfeirio at aelwydydd ar gyfer problemau cyflwr tai gan gynnwys peryglon posibl yn y cartref.
- Darparu achlysuron ymgysylltu yn y gymuned wedi'u targedu sy'n cynnig cyngor i drigolion ac, os oes angen, atgyfeirio i asiantaethau eraill megis Gwasanaethau Cymdeithasol, Grantiau Tai Sector Preifat, Gofal ac Atgyweirio a Chyngor ar Bopeth.
- Cyfeirio trigolion at wasanaethau cysylltiedig eraill megis hybiau cynnes, talebau tanwydd a banciau bwyd yn eu cymunedau.
- Cyflwyno ystod eang o ymgyrchoedd hysbysebu sy'n meithrin ymgysylltiad cymunedol i wella addysg am dlodi tanwydd, gan ddefnyddio llwyfannau a sianeli cymunedol i ategu dulliau hysbysebu digidol neu gyfryngau cymdeithasol.
- Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau marchnata a hyrwyddo yn hawdd eu darllen ac yn ddealladwy i bawb.
- Rhoi cyngor i landlordiaid preifat i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi rhent a chyfeirio at gymorth ariannol sydd ar gael.

AMCAN STRATEGOL 2:

# Gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi ar draws deiliadaethau i wella cynhesrwydd thermol a lliniaru tlodi tanwydd i drigolion.





**Mae dros 40% o'r ynni sy'n cael ei ddefnyddio mewn cartrefi o ganlyniad i'w gwresogi. Mae gwneud cartrefi yn fwy effeithlon o ran arbed ynni ac yn rhatach i'w cynhesu yn golygu y bydd gyda thrigolion fwy o incwm i'w wario.**

Er bod modd dod o hyd i gyllid grant preifat a chyhoeddus a benthyciadau ar gyfer rhai mesurau ynni, mae diffygion o ran cymhwysedd a chyllid yn parhau i adael llawer o gartrefi yn methu fforddio'r gwelliannau yma. Felly, mae dull strategol o gyflawni yn hanfodol i sicrhau'r bargeinion gorau, cyfuno ffrydiau ariannu, a blaenoriaethu'r drefn y mae cynlluniau'n cael eu cyrchu i wneud y mwyaf o ganlyniadau a diwallu anghenion lleol.

Mae gwella perfformiad ynni cartrefi yn cyfrannu at yr agendâu datgarboneiddio a sero net ehangach tra hefyd yn gwella amodau tai yn yr ardal. Bydd cymorth ariannol drwy grantiau a benthyciadau yn parhau i gael ei geisio i helpu aelwydydd i fforddio mesurau ynni ar gyfer eu cartrefi. Yn ogystal â hyn, bydd cyfleoedd pellach yn cael eu harchwilio ar gyfer cyfuno cyllid a cheisio ffynonellau cymorth eraill i gefnogi gwaith galluogi a gwella cyflwr eiddo, gan hyrwyddo gosodiadau addas mewn cartrefi ledled y Fwrdeistref Sirol.

## SUT Y BYDDWN NI'N GWNEUD HYN?

- Cynllunio a chyflawni cynlluniau a gaiff eu hariannu gan grantiau effeithlonrwydd ynni yn strategol sy'n lliniaru tlodi tanwydd ac yn hyrwyddo cartrefi cynhesach.
- Cefnogi perchnogion tai i dalu costau mân atgyweiriadau neu waith galluogi i'w cartrefi i gynnal neu wella cynhesrwydd a/neu effeithlonrwydd ynni drwy gynnig grantiau megis y Grant Cymorth Bychan Gwresogi ac Arbed.
- Cyflwyno, monitro a gwerthuso'r broses o ddarparu grant Cynhesu Rhondda Cynon Taf er mwyn gwneud cartrefi'n fwy ynni-effeithlon a lleihau biliau i breswylwyr.
- Cyflwyno, monitro a gwerthuso'r broses o ddarparu grant Paneli Solar Rhondda Cynon Taf er mwyn gwneud cartrefi'n fwy ynni-effeithlon a lleihau biliau i breswylwyr.
- Parhau i alluogi cyflwyno cynlluniau a gaiff eu hariannu gan grantiau allanol (h.y. Rhaglen Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru, ECO 4 Flex)
- Sicrhau bod cynlluniau grant a ariennir gan y Cyngor yn helpu i hyrwyddo ôl-osod tai cyfan sy'n cefnogi dull 'ffabrig yn gyntaf' (lle bo modd), yn enwedig i'r rhai sy'n dymuno gosod pympiau gwres.
- Darparu cyfeiriadau i drigolion gael mynediad at gyngor a chymorth ariannol i osod technolegau ynni adnewyddadwy mewn cartrefi
- Cefnogi partneriaid i gyflwyno achlysuron ymgysylltu cymunedol ac ymgyrchoedd marchnata i annog trigolion i gael mynediad at gymorth ariannol ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn eu cartrefi h.y. Cynllun Nyth Llywodraeth Cymru
- Nodi opsiynau i gefnogi aelwydydd sy'n methu â derbyn pympiau gwres oherwydd anaddasrwydd eiddo neu breswylydd neu lle gallen nhw achosi mwy o risg o dlodi tanwydd.



3

AMCAN STRATEGOL 3:

# Hwyluso'r cyfnod pontio i ddatgarboneiddio gwresogi mewn cartrefi yn rhan o agenda Sero Net y Llywodraeth, gan sicrhau nad yw tlodi tanwydd yn effeithio'n andwyol ar aelwydydd.

**Mae darparu gwasanaethau ac ymyriadau sy'n helpu aelwydydd i leihau'r galw am ynni a gwella perfformiad ynni cartrefi hefyd yn cefnogi cyflawni amcanion sero net drwy leihau allyriadau carbon. Yn ogystal â hyn, mae'n hyrwyddo datgarboneiddio gwresogi cartrefi drwy annog gosod ffynonellau gwresogi adnewyddadwy, megis pympiau gwres ffynhonnell aer, yn lle opsiynau tanwydd ffosil traddodiadol megis boeleri nwy.**

Serch hynny, efallai na fydd pympiau gwres yn addas ar gyfer pob cartref oherwydd ystod o ffactorau, gan gynnwys amgylchiadau'r deiliaid, Hawliau Datblygu a Ganiateir cyfredol, ac a yw'r eiddo wedi'i inswleiddio. Yn ystod y cyfnod pontio dros dro yma, mae'n bwysig archwilio opsiynau eraill sy'n parhau i gefnogi aelwydydd a gaiff eu heffeithio gan dlodi tanwydd ar eu taith i gyflawni sero net. Mae modd i'r opsiynau yma gynnwys uwchraddio boeleri nwy nes bod ffactorau allanol, megis cost uwch trydan o'i gymharu â nwy, yn cael sylw.

## SUT Y BYDDWN NI'N GWNEUD HYN?

- Darparu cyngor a chyfeirio i hyrwyddo opsiynau datgarboneiddio gwres i gartrefi er mwyn lleihau eu hôl troed carbon gartref.
- Parhau i adolygu ymchwil allanol megis Nyth ar ddefnyddio technolegau carbon isel i sicrhau bod mesurau a gaiff eu cynnig trwy gynlluniau a gaiff eu hariannu neu'u galluogi yn addas at y diben ac yn diwallu anghenion trigolion.
- Chwilio am gyfleoedd ariannu i gyflawni cynlluniau grant ar gyfer opsiynau gwresogi wedi'u datgarboneiddio a thechnolegau ynni adnewyddadwy eraill.
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer fforddiadwyedd a diogelwch cyflenwad ynni gan gynnwys modelau cyflenwi ynni cymunedol a/neu ffynonellau ynni adnewyddadwy trwy gydweithio â phartneriaid trwy gyflawni'r Cynllun Ynni Ardal Leol (LAEP).

4

AMCAN STRATEGOL 4:


# Gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o sefydliadau i sicrhau bod ymdrechion i leihau tlodi tanwydd yn gydlynol, yn gyfannol ac yn ymatebol i anghenion amrywiol aelwydydd.

**Mae mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn gofyn am ddull cyfannol, gan ystyried ffactorau cydafiachedd megis problemau iechyd, dyledion ynni, a diffyg mynediad at wasanaethau a chymorth eraill.**

Er mwyn lliniaru'r risg o dlodi tanwydd parhaus neu ailadroddus, mae angen i aelwydydd gael mynediad at gymorth ariannol priodol, ynghyd â chyngor a chyfeirio priodol. Mae hyn yn gofyn am ymdrech gydweithredol gan wahanol sefydliadau.

## SUT Y BYDDWN NI'N GWNEUD HYN?

- Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau bod trigolion sy'n agored i niwed sydd â salwch iechyd critigol yn cael eu hatgyfeirio at garfan Gwresogi ac Arbed y Cyngor fel bod modd eu cefnogi i gael mynediad at gyllid i wneud eu cartref yn fwy ynni-effeithlon ac arbed arian ar eu biliau.
- Parhau i hwyluso grŵp ynni tai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau cydweithio a rhannu arfer da megis archwilio ffyrdd arloesol o ddatgarboneiddio stoc tai.
- Parhau i ymgysylltu â Landlordiaid Preifat drwy Fforwm Landlordiaid Cyngor Rhondda Cynon Taf drwy ddarparu cyngor a chyfeirio at gymorth grant sy'n helpu i wella perfformiad ynni eu cartrefi rhent.
- Parhau i weithio gyda'r trydydd sector i ddarparu cefnogaeth a grantiau sy'n gysylltiedig ag ynni.
- Sefydlu panel Technegol Rhondda Cynon Taf o swyddogion Strategaeth Tai/Gwresogi ac Arbed, Grantiau a Rheoli Adeiladu i adolygu a phenderfynu ar ymyriadau priodol sy'n addas ar gyfer y stoc tai yn Rhondda Cynon Taf.



# MESUR LLWYDDIANT





**Gan gyflawni'r 4 amcan, ein nod yw cyflawni'r deilliannau canlynol:**

## 1

### Drwy gefnogi trigolion i gael mynediad at gyngor rhad ac am ddim, diduedd ac o ansawdd uchel ar bob mater sy'n ymwneud ag ynni.

Ein nod yw cyflawni'r deilliannau canlynol:

- Mwy o drigolion yn derbyn cymorth ariannol i helpu i wneud eu cartrefi'n fwy effeithlon o ran ynni.
- Cynyddu cefnogaeth i drigolion gael mynediad at wasanaethau eraill sy'n helpu i leihau dyled ynni.
- Y bydd yr wybodaeth a'r cyngor a gaiff eu darparu yn addas at y diben gan ddefnyddio terminoleg hawdd ei defnyddio sy'n symleiddio sut mae materion ynni'n cael eu cyfleu ar hyn o bryd.

## 2

### Drwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi ar draws deiliadaethau i wella cynhesrwydd thermol a lliniaru tlodi tanwydd i drigolion.

Ein nod yw cyflawni'r deilliannau canlynol:

- Lleihau biliau ynni i drigolion.
- Cynyddu nifer y cartrefi cynhesach a mwy effeithlon o ran ynni.
- Gwella safonau'r stoc tai bresennol.
- Denu buddsoddiad allanol i'r Fwrdeistref Sirol drwy alluogi cynlluniau ynni a ariennir yn allanol i wneud y mwyaf o fuddsoddiad yn y stoc tai yn Rhondda Cynon Taf.

## 3

### Drwy gefnogi'r newid i Net Sero / datgarboneiddio gwres.

Ein nod yw cyflawni'r deilliannau canlynol:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o dechnolegau ynni adnewyddadwy sydd ar gael fel bod modd i drigolion wneud dewis gwybodus.
- Cynyddu nifer y gosodiadau gwresogi carbon isel mewn cartrefi.
- Lleihau allyriadau carbon o gartrefi domestig.

## 4

### Drwy weithio mewn partneriaeth.

Ein nod yw cyflawni'r deilliannau canlynol:

- Datblygu a chyflawni ymyriadau cydweithredol gyda gwasanaethau iechyd (Bwrdd Iechyd Lleol) i leihau nifer y trigolion â chyflyrau iechyd sy'n byw mewn cartrefi oer.
- Cynyddu ymwybyddiaeth, a gweithio ar y cyd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i greu cyfleoedd ar gyfer prosiectau/rhaglenni traws-ddeiliadaeth sy'n seiliedig ar ardaloedd.
- Cynyddu darpariaeth ymyriadau traws-ddeiliadaeth, seiliedig ar ardaloedd, drwy weithio gyda landlordiaid preifat a chymdeithasol.



# GWIREDDU'R WELEDIGAETH!

**Mae'r Strategaeth yma'n amlinellu Strategaeth Tai'r Cyngor, 'Cartrefi Llewyrchus, Bywydau Llewyrchus 2024-2030,' gan ganolbwyntio ar gyflawni amcanion dau a phedwar:**



**HYRWYDDO CYMUNEDAU CYNALIADWY...**
a chreu cartrefi sy'n ddiogel, yn gynnes ac yn iach drwy wella cyflwr tai ac adfywio cymunedau.


**CREU CYMUNEDAU LLEWYRCHUS...**
drwy sicrhau bod modd i drigolion gael gafael ar gyngor a chymorth yn ymwneud â materion tai sy'n diwallu eu hanghenion.




Mae cyflawni'r amcanion yma'n gofyn am adnoddau sylweddol ar gyfer gwasanaethau cynghori a buddsoddiad uniongyrchol mewn stoc tai. Bydd y Cyngor yn manteisio ar ei rolau arweinyddiaeth a chydlynu i weithio gyda phartneriaid, gan ddod ag opsiynau a rhaglenni ariannu ynghyd i wneud y mwyaf o fuddsoddiad yn Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â dull Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, gan ymgorffori'r 'pum ffordd o weithio':

1. **YMGLYMIAD:**
   Mae mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn gofyn am wasanaethau ac ymyriadau amrywiol. Bydd y Strategaeth yn cydlynu'r gwasanaethau yma i sicrhau darpariaeth gydweithredol, gan wella cyfraddau llwyddiant. Bydd partneriaid yn monitro'r Strategaeth i sicrhau bod amcanion a cherrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni.
2. **YR HIRDYMOR:**
   Mae'r Strategaeth yn amlinellu cynllun pum mlynedd i liniaru effeithiau tlodi tanwydd, gan fanylu ar sut y cyflawnir amcanion strategol. Mae hefyd yn cefnogi cynllunio hirdymor tuag at gyflawni sero net drwy hwyluso'r newid i wresogi wedi'i ddatgarboneiddio.
3. **CAMAU ATAL:**
   Nod y Strategaeth yw atal tlodi tanwydd drwy wella cydnerthedd aelwydydd i gynnydd mewn biliau ynni yn y dyfodol a gwella perfformiad ac amodau ynni cartrefi. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer buddsoddiadau wedi'u targedu yn y dyfodol i fynd i'r afael â heriau presennol a heriau'r dyfodol.
4. **INTEGREIDDIO:**
   Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol a chenedlaethol i wella amodau cartrefi a lliniaru risgiau tlodi tanwydd. Mae'n cynnig fframwaith i gyflawni'r blaenoriaethau yma ar lefel leol.
5. **CYDWEITHIO:**
   Mae'r Strategaeth yn hyrwyddo dull cydweithredol, gan adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i weithio gyda phartneriaid cyhoeddus, preifat a thrydydd sector.



**Bydd adroddiadau monitro yn cofnodi perfformiad chwarterol a blynyddol, gan gyfrannu at ddangosyddion perfformiad a chynlluniau cyflawni cenedlaethol.**

Bydd gwerthusiadau o ymyriadau yn mesur eu heffaith ar fywydau trigolion, gan lywio a llunio ymyriadau yn y dyfodol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn diwallu anghenion trigolion.

Bydd y Strategaeth a sut rydyn ni'n ei chyflawni yn cael ei hadolygu yn unol â gwaith Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (HDRC) Cyngor RhCT, sy'n cefnogi'r Cyngor i ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i wneud penderfyniadau am ei wasanaethau.